Cofnodion cyfarfod rhif 89
Pwyllgor Cynghori Cymru
Cyfarfod hybrid ar 13 Mehefin 2023

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Hywel Wiliam | Y Cadeirydd |
| Robert Andrews | Aelod |
| Tom Crick | Aelod |
| Angharad Evans | Aelodau |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Sian Phipps | Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau |
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Maeve MacRory | Cyfarwyddwr Anweithredol |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Aled Eirug | Aelod |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam Gweithredu |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 89 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Jones, Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom; Ruth McElroy, Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys ac Aled Eirug, Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru.<br><br>Fe wnaeth y Cadeirydd hefyd groesawu Maeve MacRory o gynllun Cyfarwyddwr Anweithredol (NED) y Genhedlaeth Nesaf. | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau newydd gan yr aelodau. | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Chwefror 2023 a materion a godwyd**<br><br>Eitem 7 – Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth ar ddatblygiadau'n ymwneud â phenderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg ar ymchwiliadau cyfredol. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam Gweithredu |
|---|---|
| | |
| 4. **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br><br>Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd ei gyfarfod Pwyllgor Cynghori Cymru olaf fel Cadeirydd a diolchodd i holl aelodau'r pwyllgor ac aelodau tîm Ofcom Cymru am eu cefnogaeth.<br><br>Nododd y Cadeirydd ei fod yn ymwybodol y bu proses i ddewis Cadeirydd newydd a dymunodd bob lwc i'w olynydd yn y dyfodol. Ychwanegodd ei fod yn hyderus y byddai'r pwyllgor yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran dylanwadu ar benderfyniadau polisi gan Ofcom, yn ogystal â gwasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yng Nghymru.<br><br>Amlinellodd y Cadeirydd y digwyddiadau a fynychwyd ganddo yn ddiweddar:<br>• Dathlu Sgil Cymru, cynllun prentisiaeth, yn Stiwdios Seren, Caerdydd.<br>• It's My Shout - Dangos ffilmiau dogfen, Coleg Caerdydd a'r Fro<br>• Gwobrau RTS Cymru 2023, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru<br>• Dangos y ffilm Y Sŵn, sy'n ymwneud â'r digwyddiadau a arweiniodd at greu S4C mewn dangosiad ar y cyd rhwng RTS ac S4C yn y Soho Hotel, Llundain | |
| **5. Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom - derbyniwyd ymddiheuriadau**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau a nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol derbyn papur cyn y cyfarfod ffurfiol. | |
| **6. Y wybodaeth ddiweddaraf – Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>Roedd Aelod y Panel wedi cyflwyno papur ymlaen llaw ac wedi tynnu sylw at y materion canlynol:<br><br>**Fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu a dyled:** Mae'r Panel wedi comisiynu ymchwil i archwilio a deall gofynion defnyddwyr iau o ran llywio eu ffordd o amgylch y farchnad cyfathrebiadau a sefydlu a oes unrhyw rwystrau sy'n eu hwynebu, er enghraifft fforddiadwyedd.<br><br>**Symud i VOIP:** Rydym yn parhau i fod yn bryderus iawn am symud i VoIP a'r effeithiau posibl ar ddefnyddwyr sydd â gofynion cymorth penodol, fel defnyddwyr teleofal a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell nad ydynt o bosibl yn gallu cysylltu â'r gwasanaethau brys yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan.<br><br>**Diffodd 2G a 3G**: Mae'r Panel wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwneud defnyddwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig sy'n defnyddio amrywiaeth o sianeli cyfathrebu, yn ogystal â phwysigrwydd adnabod defnyddwyr y gallai'r broses o ddiffodd eu rhwydweithiau'n gynnar effeithio arnynt, er mwyn helpu i liniaru niwed posibl. | |
| **7. Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom - derbyniwyd ymddiheuriadau**<br><br>Derbyniwyd a dosbarthwyd adroddiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys. | |

<table>
<tr><th>Eitemau ar yr Agenda</th><th>Cam Gweithredu</th></tr>
<tr><td>
8. Y wybodaeth ddiweddaraf – Polisi Cyhoeddus<br><br>
Cafodd Aelodau’r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddatblygiadau a meysydd polisi Seneddol, gan gynnwys y canlynol:<br><br>
• GB News: Cyhoeddi penderfyniad “am dorri amodau” yn erbyn GB News. Mae hwn ar gyfer rhifyn o raglen Mark Steyn, a gafodd ei ddarlledu am y tro cyntaf ar 4 Hydref 2022 ac a gafodd 422 o gwynion. Soniwyd hefyd fod uwch aelodau o’r Blaid Werdd wedi cyhoeddi llythyr ar Twitter wedi’i gyfeirio atom. Roedd y llythyr yn amlinellu cwyn am bennod o State of the Nation a ddarlledwyd ar GB News ar 9 Mai ac yn gofyn i ni ddiddymu trwydded y darlledwr. Rydym wedi ymateb gan ddweud y byddwn yn trin hyn fel cwyn am safonau darlledu.<br>
• Symud i VoIP: Mae’r gwaith ymgysylltu wedi parhau gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg ar ddiffodd y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus a symud i VoIP.  Roedd y Gweinidog Lopez wedi bod yn gweithio gyda’r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau i annog y diwydiant i gynnal ymgyrch cyfathrebu â defnyddwyr ar lefel genedlaethol ynghylch diffodd y rhwydweithiau, a bydd Ofcom yn rhannu canlyniadau arolwg gan reoleiddwyr eraill ynghylch cynlluniau cyfathrebu â chydweithwyr yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg ar lefel weithredol. Nodwyd bod BT wedi ailddechrau'r gwaith o symud.<br>
• Y Bil Diogelwch Ar-lein: Nodwyd bod y tîm Polisi Cyhoeddus wedi bod yn ymgysylltu’n agos â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg drwy gydol taith y Bil. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â nifer o gymheiriaid allweddol i ddeall eu pryderon ac i ddarparu cyngor ac arbenigedd technegol. Mae hyn wedi cynnwys dysgu technolegau AA/AV a llythyr yn amlinellu ein paratoadau ar gyfer gweithredu’r drefn Diogelwch Ar-lein.
</td><td></td></tr>
<tr><td>
9. Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru<br><br>
Fe wnaeth Eleanor Marks, Cyfarwyddwr Cymru, dynnu sylw at y canlynol o’i hadroddiad ysgrifenedig, a oedd wedi cael ei ddosbarthu i’r aelodau cyn y cyfarfod:<br><br>
• Cwblhau’r broses recriwtio lwyddiannus drwy benodi Cynghorydd y Gymraeg a Chydymaith Cyfryngau Cymdeithasol newydd<br><br>
• Meithrin perthynas â Chomisiynydd y Gymraeg newydd, gan gynnwys trafodaeth ar ein gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg a’n penderfyniad llunio polisi ynghylch DAB ar raddfa fach, y mae’r ddau yn destun ymchwiliad gan y Comisiynydd. Trafododd yr Aelodau'r risgiau parhaus sy'n gysylltiedig ag Ofcom yn torri ei Safonau'r Gymraeg.<br><br>
• Bu’r aelodau hefyd yn trafod y newyddion bod y darparwr band eang Broadband Partners wedi mynd i ddwylo’r gweinyddwyr, gan ystyried yr effaith y gallai hyn ei chael ar ei gwsmeriaid sydd yn bennaf mewn ardaloedd gwledig sy’n anodd eu cyrraedd yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Fe wnaeth yr aelod o’r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau addo codi’r mater yng nghyfarfod nesaf y Panel.
</td><td></td></tr>
</table>

| Eitemau ar yr Agenda | Cam Gweithredu |
|---|---|
| • Nododd Eleanor Marks mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cadeirydd ac aelod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau gan fod eu telerau sefydlog yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin. Diolchodd iddynt am eu cyfraniadau. | |
| **10. Gwybodaeth am Raglenni ac Adolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC**<br><br>Rhoddodd cydweithwyr y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith parhaus yn rheoleiddio'r BBC a'n Hadolygiad o Gynulleidfaoedd a lansiwyd yn gynharach eleni.<br><br>Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar raglenni'n cynnwys pum maes gwaith: Adolygu'r Cynllun Blynyddol ac Adroddiad y BBC; Monitro perfformiad a mesur; Monitro ac ymateb i newidiadau'r BBC; ac Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC.<br><br>Gan droi at yr Adolygiad o Gynulleidfaoedd, eglurodd cydweithwyr y byddai'n archwilio'r grwpiau economaidd-gymdeithasol DE, sy'n gyson yn llai bodlon â'r BBC, i geisio deall arferion y grwpiau hyn yn well a sut mae'r BBC yn cyflawni ar eu cyfer.<br><br>Fel rhan o'r adolygiad, rydym wedi comisiynu asiantaeth ymchwil annibynnol i gynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws. Yng Nghymru, cynhelir y grŵp ffocws ym maestrefi Llaneirwg ar gyrion Caerdydd. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid hŷn ac anabl.<br><br>Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd cydweithwyr fod y grŵp ffocws yn Llaneirwg yn gynllun peilot ac y gallai eraill ddilyn mewn ardaloedd mwy trefol a gwledig a chynnwys ardaloedd lle'r oedd y Gymraeg yn flaenllaw yn y gymuned. Nododd yr aelodau y byddent yn awyddus i ymgysylltu â'r Adolygiad ac i gael gwybod am y canfyddiadau. | |
| **11. Y wybodaeth ddiweddaraf ym maes radio**<br><br>Rhoddodd cydweithwyr ddiweddariad llafar am ein gwaith ym maes Radio, gan nodi bod ein gweithgarwch trwyddedu radio yn canolbwyntio ar raddfa fach (SSDAB). Mae SSDAB yn dechnoleg arloesol sy'n rhoi llwybr rhad i ddarlledu gwasanaethau masnachol, cymunedol a cherddoriaeth arbenigol ar radio digidol daearol mewn ardal ddaearyddol gweddol fach.<br><br>Yng Nghymru, mae dyfarniadau SSDAB eisoes wedi cael eu trwyddedu yng Nghaerdydd, Wrecsam, Abertawe, Casnewydd a Chas-gwent, de a gogledd Sir Benfro, a disgwylir dyfarniadau pellach yn ddiweddarach eleni. Nododd yr aelodau fod gwerthiant setiau radio traddodiadol wedi gostwng oherwydd y newid yn arferion gwrandawyr, y profiad o ddod o hyd i'r orsaf ar y dangosfwrdd yn y car, a thwf yn y defnydd o seinyddion clyfar.<br><br>Trafododd yr aelodau hefyd y ddarpariaeth radio a sain yn y Bil Cyfryngau drafft a'r bwriad i ailwampio'r fframwaith presennol. Nododd yr aelodau fod lleoliad trosglwyddyddion a thopograffeg Cymru, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru, yn effeithio ar argaeledd gwasanaethau. Yn olaf, trafododd yr Aelodau y ddarpariaeth newyddion lleol, yn enwedig ar orsafoedd masnachol. | |
| **12. Cyfryngau'r Genedl 2023**<br><br>Dechreuodd cydweithwyr y sesiwn drwy gydnabod arwyddocâd mawr Adroddiad Cyfryngau'r Genedl yng Nghymru ac i randdeiliaid yng Nghymru. Eglurodd y tîm y bydd fersiwn eleni yn cael ei gyhoeddi'n gynharach na'r llynedd ac y byddai'n fwy cryno. Yna rhoddodd cydweithwyr gyflwyniad byr ar y themâu allweddol a oedd yn dod i'r amlwg yn adroddiad Cymru. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam Gweithredu |
|---|---|
| Trafododd yr aelodau'r tueddiadau o ran sut roedd gwylwyr yn defnyddio gwasanaethau teledu llinol a fideo ar-alw, ynghyd â bodlonrwydd gwylwyr â'u gwasanaethau. Nododd yr aelodau y cynnydd yn nifer y gwylwyr sy'n troi at lwyfannau eraill i weld cynnwys fel Tik Tok a You Tube. | |
| **13. Tirwedd Wleidyddol yng Nghymru**<br><br>Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau gwleidyddol yng Nghymru, bron i ddwy flynedd ers etholiadau diwethaf y Senedd ym mis Mai 2022 | |
| **14. Y wybodaeth ddiweddaraf ar Adnewyddu Trwydded Channel 4 a'r Bil Cyfryngau**<br><br>Rhoddodd y tîm wybodaeth ar y cyd ar ddrafft o'r Bil Cyfryngau a Thrwydded Channel 4.<br><br>Cyhoeddwyd y Bil Cyfryngau drafft ym mis Mawrth ac mae'n garreg filltir bwysig. Mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer diwygio ac mae'n adeiladu ar ein hargymhellion fel y nodir yn ein hymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr ar y newidiadau deddfwriaethol a allai gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu trawsnewidiad digidol. Cyn bo hir, bydd pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y Senedd Brydeinig yn dechrau craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil drafft, ac rydym wedi cyflwyno ein tystiolaeth ysgrifenedig, cyn rhoi tystiolaeth lafar ym mis Mehefin a mis Gorffennaf.<br><br>Cafodd trwydded Channel 4 ei hadnewyddu yn 2014 am gyfnod o 10 mlynedd ac mae'n dod i ben ddiwedd 2024. Mae gan Ofcom y pŵer i adnewyddu'r drwydded am gyfnod pellach a gosod rhai rhwymedigaethau fel rhan o'r drwydded, fel cwota, faint o newyddion sydd i'w gwmpasu, a gwariant y tu allan i'r M25.<br><br>Trafododd yr aelodau yr angen i sicrhau amlygrwydd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y Bil Cyfryngau drafft, gan gynnwys yr angen i wneud cynnwys y gwledydd yn fwy gweladwy, yn cynnwys newyddion sy'n benodol i'r gwledydd. Buont hefyd yn trafod pwysigrwydd y sector annibyniaeth yng Nghymru mewn perthynas â Channel 4. | |
| **Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**<br><br>Dim<br><br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br><br>4 Hydref 2023 | |

______________________________ **Dyddiad**: ______________________

Cadeirydd
[remove for published minutes]